

ADRODDIAD
Y PWYLLGOR AR YR YMCHWILIAD I'R ACHOSION E.COLI YNG
NGHYMRU

Aelodau'r Pwyllgor:

Jocelyn Davies (Cadeirydd)	Dwyrain De Cymru
Jeff Cuthbert	Caerffili
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Jenny Randerson	Canol Caerdydd
Karen Sinclair	De Clwyd

1. Argymhellion

1.1 Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol:

- Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005.
- Cylch gorchwyl yr ymchwiliad ddylai fod:
"cynnal ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achosion E.coli 0157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005, ac i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r haint;
ac ystyried y goblygiadau ar gyfer y dyfodol a gwneud argymhellion yn unol â hynny."
- Dylid penodi'r Athro Hugh Pennington fel cadeirydd yr ymchwiliad.
- Dylid dirprwyo pob swyddogaeth sydd ar ôl o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, at ddiben yr ymchwiliad i'r achosion E.coli 0157 yn Ne Cymru, i'r Prif Weinidog.

2. Cefndir

2.2 Canfuwyd yr achosion cyntaf o E.coli 0157 yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr ar 16 Medi 2005. O fewn wythnos, nodwyd 150 o achosion yng nghymoedd De Cymru, ac effeithiwyd ar 42 o ysgolion. Yn dilyn marwolaeth Mason Jones, bachgen 5 oed, ar 4 Hydref, lansiwyd ymchwiliad gan yr heddlu. Erbyn 14 Tachwedd, nodwyd 168 o achosion a oedd yn cydweddu â'r haint E.coli 0157.

2.3 Ar 5 Hydref, sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Bwyllgor o dan Reol Sefydlog 8.1 i:

- ystyried y telerau a'r amodau ar gyfer ymchwiliad o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005;
- cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn 7 Rhagfyr ar ei gasgliadau.

2.4 Cyfarfu'r Pwyllgor ar 7 a'r 17 Tachwedd.

2.5 Cyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor, gwahoddwyd sefydliadau allweddol i gyflwyno eu hawgrymiadau ar gyfer cylch gorchwyl yr ymchwiliad. Ceir rhestr o'r sefydliadau yn Atodiad 1. Cafodd eu hymatebion eu cynnwys ym mhapurau'r pwyllgor a restrir yn Atodiad 2.

3. Ddeddf Ymchwiliadau 2005

3.1 Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith statudol cynhwysfawr i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu ymchwiliadau ffurfiol ac annibynnol i faterion sy'n peri pryder i'r cyhoedd. Mae'n darparu ar gyfer:

- pennu'r cylch gorchwyl, penodi'r Cadeirydd i gynnal yr ymchwiliad a phenodi aelodau neu aseswyr ychwanegol i'r panel;
 - y ffordd y cynhelir yr ymchwiliad, yn cynnwys pŵer y cadeirydd i ofyn am dystiolaeth, a'r pŵer i gyfyngu mynediad y cyhoedd lle y bo'n briodol.
- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu adroddiad.

3.2 O dan adran 62 Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gall y Cynulliad Cenedlaethol ddirprwyo ei bwerau o dan y Ddeddf Ymchwiliadau i unrhyw bwyllgor y Cynulliad neu i'r Prif Weinidog, ac yn ei dro gall ddirprwyo swyddogaethau i staff y Cynulliad drwy'r Ysgrifennydd Parhaol.

3.3 Darparodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru bapur (E.coli(2) 02-05(p3)) yn nodi'r opsiynau dirprwyo. Mae atodiad y papur, a atgynhyrchir yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn, yn crynhoi swyddogaethau'r Cynulliad o dan y Ddeddf Ymchwiliadau.

4. Enwebu Person i Gadeirio'r Ymchwiliad

4.1 Mae adran 5(4) y Ddeddf Ymchwiliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori â'r person y mae'n bwriadu ei benodi, neu y mae wedi'i benodi, i gadeirio'r ymchwiliad ynglŷn â'r cylch gorchwyl. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai argymhell ymgeisydd addas i'r Cynulliad ei benodi fel Cadeirydd, fel y gallai wahodd y person hwnnw i drafod y cylch gorchwyl gyda'r Pwyllgor.

4.2 Yn y cyfarfod ar 7 Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor y dylai rhywun â gwybodaeth arbenigol am haint E.coli gadeirio'r ymchwiliad. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gofyn i'r Athro Hugh Pennington gadeirio'r ymchwiliad. Yr Athro Pennington a arweiniodd y grŵp a gynhaliodd ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achosion E.coli 0157 yng Nghanol yr Alban ym 1996.

4.3 Cytunodd yr Athro Pennington y dylid cynnig ei enw ac roedd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Tachwedd.

5. Dirprwyo Swyddogaethau o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005

5.1 Gall y Cynulliad llawn gynnal rhai o'r pwerau a'r swyddogaethau mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor, sef y penderfyniad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus annibynnol yn unol ag adran 1, a phenderfynu pwy fydd yn cadeirio'r ymchwiliad. Gall y Cynulliad hefyd gymeradwyo'r cylch gorchwyl a argymhellwyd gan y Pwyllgor ac y cytunwyd arno gyda'r Athro Pennington.

5.2 Ystyriodd y Pwyllgor a ddylid dirprwyo'r holl bwerau eraill i'r Prif Weinidog, neu a ddylid neilltuo rhai i'r Cynulliad. Y pwerau yr ystyriodd eu neilltuo yw:

- y pŵer i ddiwygio'r cylch gorchwyl o dan adran 5(3);
- y pŵer i derfynu penodiad y Cadeirydd o dan adran 12, a'r pŵer i benodi Cadeirydd newydd yn unol ag adran 7(1);
- y pŵer i ohirio'r ymchwiliad o dan adran 13(1);
- y pŵer i gyfyngu ar fynediad y cyhoedd i'r ymchwiliad o dan adran 19(2)(a).

5.3 Credai'r Pwyllgor ei fod yn annhebygol iawn y byddai angen arfer y pwerau hyn, ond pe byddai eu hangen efallai na fyddai'n hawdd i'r Cynulliad llawn wneud hynny, yn arbennig pe byddai materion yn codi yn ystod y toriad. Fel arall, os caiff y pwerau sydd ar ôl eu dirprwyo, gall y Cynulliad fonitro'r ffordd y cawsant eu harfer gan y Prif Weinidog. O dan adran 62(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 byddai'n agored i'r Cynulliad llawn arfer y pwerau.

5.4 Nododd y Pwyllgor fod nifer o ymchwiliadau i'r haint wrthi'n cael eu cynnal, yn cynnwys ymchwiliad gan yr heddlu, ac y byddai angen i amserlen yr ymchwiliad ystyried y pethau hyn.

5.5 Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid dirprwyo pob swyddogaeth o dan y Ddeddf, ac eithrio'r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.1 (i) i (iii), at ddibenion yr ymchwiliad i'r achosion E.coli yng Nghymru, i'r Prif Weinidog.

6. Rheolau'r Ymchwiliad

6.1 Ceir darpariaeth yn adran 41 y Ddeddf Ymchwiliadau y gall y Cynulliad, fel yr "awdurdod priodol", wneud rheolau yn unol ag awdurdod statudol i ddelio â materion sy'n ymwneud â thystiolaeth, gweithdrefnau, dogfennau a dyfarnu costau. Mae'r pŵer yn oddefol. Nododd y Pwyllgor nad oedd rheolau o'r fath ar waith ar hyn o bryd, ond bod disgwyl i'r Adran Materion Cyfansoddiadol ymgynghori ar reolau sy'n gymwys yn Lloegr cyn hir. Byddai'n agored i'r Cynulliad p'un a yw am fabwysiadu'r rhain ai peidio.

6.2 Cynghorodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru y Pwyllgor, er mwyn sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol

Cymru yn dwyn rheolau statudol i rym erbyn Gwanwyn 2006, neu'n fuan wedyn, y byddai angen i Weinidog gyflwyno is-ddeddfwriaeth gyffredinol, berthnasol y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 24. Byddai angen dirprwyo pŵer adran 41 yn gyffredinol yn hytrach na'i gyfyngu i'r ymchwiliad i'r achosion E.coli yn Ne Cymru.

6.3. Yn absenoldeb rheolau a wnaed o dan adran 41, ceir darpariaeth yn adran 17(1) y bydd Cadeirydd yr ymchwiliad yn gyfrifol am ei weithdrefn a'r ffordd y'i cynhelir. Nododd y Pwyllgor os na fyddai'r rheolau statudol ar waith ar ddechrau'r ymchwiliad, y gallai'r Cadeirydd ddefnyddio'r rheolau drafft fel sail ar gyfer rheoli'r ymchwiliad. O ystyried darpariaethau adran 41, daeth y Pwyllgor i'r casgliad na ddylai wneud argymhelliaid ar reolau'r ymchwiliad.

7. Cylch Gorchwyl

7.1 Trafododd y Pwyllgor beth allai gael ei gynnwys yn y cylch gorchwyl gyda'r Athro Pennington a'r canlynol:

- Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Dros Dro
- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymru
- Y Comisiynydd Plant
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- Canolfan Iechyd Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

7.2 Cafodd y Pwyllgor hefyd gyflwyniadau ysgrifenedig gan Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru; Grŵp Cymorth E.coli y DU (Cymorth Syndrom Wremig Hemolytic); a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Cwmdar, Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Aberpennar.

7.3 Cynghorwyd y Pwyllgor fod adran 29(2) y Ddeddf Ymchwiliadau yn nodi na ddylai cylch gorchwyl yr ymchwiliad ei wneud yn ofynnol iddo bennu unrhyw ffaith na gwneud unrhyw argymhelliaid nad yw'n fater sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. Mae adran 29(5) yn diffinio mater sy'n ymwneud â Chymru fel mater y mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef. Yn y cyd-destun hwn, codwyd nifer o faterion pwysig yn ystod trafodaethau ac yn y cyflwyniadau ysgrifenedig y credai'r Pwyllgor y dylai'r ymchwiliad fynd i'r afael â hwy. Maent yn cynnwys:

- i. yr hyn a achosodd yr haint, yn cynnwys ffermio, marchnata a lladd da byw a phrosesu cig;
- ii. deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau ar reoli'r broses o gynhyrchu bwyd;
- iii. y broses gaffael ar gyfer prydau ysgol;
- iv. ymateb yr asiantaethau statudol i'r haint;
- v. cyfathrebu a chyhoeddi gwybodaeth, yn cynnwys prydlondeb cyhoeddi'r wybodaeth a rôl y cyfryngau;
- vi. addysgu ac arferion hylendid mewn ysgolion, yn cynnwys rhoi gwybodaeth i blant am yr haint;

- vii. priodoldeb cau ysgol mewn ymateb i'r haint;
- viii. y gofal a'r arweiniad a roddir i gleifion sy'n dioddef o'r haint E.coli 0157 a'u teuluoedd a phroblemau iechyd hirdymor pobl sy'n dioddef o Syndrom Wremig Hemolytic;
- ix. gwensi i'w dysgu o'r haint.

7.4 Ystyriodd y Pwyllgor a ddylid cynnwys manylion y materion hyn yn y cylch gorchwyl ond, ar ôl ymgynghori â'r Athro Pennington, daeth yr Aelodau i'r casgliad y byddai'n well drafftio'r cylch gorchwyl yn eang, er mwyn sicrhau na fyddai Cadeirydd yr ymchwiliad yn cael ei gyfyngu i fynd ar drywydd ymchwiliadau a allai godi o'r dystiolaeth.

7.5 Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell mai'r cylch gorchwyl ddylai fod:

**"cynnal ymchwiliad i'r amgylchiadau a arweiniodd at yr achosion E.coli 0157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005, ac i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r haint;
ac ystyried y goblygiadau ar gyfer y dyfodol a gwneud argymhellion yn unol â hynny."**

**Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
29 Tachwedd 2005**

Atodiad 1

Y Sefydliadau a Wahoddwyd i Wneud Argymhellion ar Gylch Gorchwyl yr Ymchwiliad

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymru
Prif Swyddog Meddygol Cymru
Y Comisiynydd Plant
Cymdeithas Defnyddwyr
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
Canolfan Iechyd Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ms Claire Hudson

Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu'r ysgolion canlynol:

Ysgol Gynradd Rhydri, Caerffili		Ysgol Fabanod Hendre, Caerffili
Ysgol Gynradd Deri, Bargoed		Ysgol Gynradd Greenhill, Hengoed
Ysgol Gymraeg Trelyn, y Coed Duon		Ysgol Uwchradd yr Archesgob McGrath, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Abertaf, Aberpennar		Ysgol Gynradd Pengeulan, Aberpennar
Ysgol Gynradd Cwmdar, Aberdâr		Ysgol Gynradd Rhigos, Aberdâr
Ysgol Gynradd Glenboi, Aberpennar		Ysgol Fabanod Cwmbach, Aberdâr
Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr, Aberdâr		Ysgol Fabanod Penygraig, Tonypandy
Ysgol Gynradd Maesycoed, Pontypridd		Ysgol Fabanod Cynon, Aberpennar
Ysgol Gynradd Caradog, Aberdâr		Ysgol Eglwys Aberdâr
Ysgol Gynradd Capcoch, Aberdâr		Ysgol Iau y Comin, Aberdâr
YGG Llwyncelyn, y Porth		Ysgol Gynradd Cwmlai, Tonyrefail
Ysgol Gynradd Hirwaun, Aberdâr		Ysgol Gynradd Parc Lewis, Pontypridd
Ysgol Gyfun Treorci		Ysgol Fabanod Glantaf, Pontypridd

Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Pontypridd		Ysgol Gyfun Aberpennar
Ysgol Fabanod Ton Pentre		Ysgol Gynradd Bedlinog, Treharris
Ysgol Fabanod Troedyrhiw, Troedyrhiw		Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Merthyr Tudful
Ysgol Gynradd Gellifaelog, Merthyr Tudful		Ysgol Gynradd Gymunedol Penyrenglyn, Treorci
Ysgol Fabanod Ynyswen, Treorci		Ysgol Yr Eos, Tonypandy
YGG Abercynon		Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf, Rhymni
Ysgol y Castell, Caerffili		Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin, Caerffili
Ysgol Gynradd Blaengwawr, Aberdâr		

Atodiad 2

Papurau a Dderbyniwyd gan y Pwyllgor

Cyfarfod 7 Tachwedd 2005

E.Coli(2) 01-05 (p1) - Papur gan yr Ysgrifennydd Parhaol

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-01-05-p1-w.html>

E.Coli(2) 01-05 (p2) – Papur gan Julie Barratt, Cyfarwyddwr Sefydliad

Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Cymru

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-01-05-p2-w.html>

E.Coli(2) 01-05 (p2a) - Papur gan Joy Whinney, Cyfarwyddwr Asiantaeth

Safonau Bwyd Cymru

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-01-05-p2a-w.html>

E.Coli(2) 01-05 (p3) – Ymatebion gan ymgynghorwyr eraill

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-01-05-p3-w.html>

Cyfarfod 17 Tachwedd 2005

E.Coli(2) 02-05 (p1) - Papur gan CLILC ar y cylch gorchwyl

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-02-05-paper1-w.htm>

E.Coli(2) 02-05 (p2) - Papur gan Gadeirydd Adolygiad y Prif Swyddog

Meddygol ar fesurau iechyd cyhoeddus

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-02-05-paper2-w.htm>

E.Coli(2) 02-05 (p3) - Papur gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-02-05-paper3-w.htm>

E.Coli(2) 02-05 (p3) Atodiad – Crynodeb o Swyddogaethau'r Cynulliad

[http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-02-05\(p3\)Annex-w.htm](http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-02-05(p3)Annex-w.htm)

E.Coli(2) 02-05 (p4) Yr ymatebion a ddaeth i law hyd yma gan Lywodraethwyr ysgol

<http://www.wales.gov.uk/keypubassemecoli/content/EColi-2-02-05-paper4-w.htm>

Atodiad 3

Summary of the Functions of the National Assembly for Wales under the Inquiries Act 2005
(extract from the paper provided by the Director of Legal Services, Welsh Assembly Government)

Section, Subsection	Provision
1(1) & (2)	Enables any Minister to cause an independent inquiry to be held and sets out the circumstances in which the inquiry may be established. It provides that any references to "Minister" also include references to the National Assembly for Wales (NAW).
4(1)–(3)	Gives NAW power to appoint, by an instrument in writing, members (including the chairman) of an inquiry panel, members to be appointed after consultation with the person it has appointed, or proposes to appoint, as chairman. The instrument appointing the chairman must state that the inquiry is to be held under the Act.
5(1)–(3)	Requires NAW to specify a date and the terms of reference for any inquiry after consultation with the chairman. Gives NAW power to amend the Terms of Reference if it considers that the public interest so requires.
6(1) & (4)	Imposes a duty to inform NAW of an inquiry to be held either in advance or as soon as is reasonably practicable by means of a statement (either written or oral).
6(2) & (3)	Requires that details of the chairman, membership and terms of reference (including any amendments) be included in any statement.
7(1)–(3)	Gives NAW the power to appoint members to fill a vacancy (including that of the chairman) or, with the consent of the chairman, further members to an inquiry panel.
8(1) & (2)	Sets out the criteria to which the NAW must have regard when appointing the inquiry panel to ensure the expertise, necessary balance etc., as appropriate, having regard to the terms of reference.
9(1)	The NAW is prohibited from appointing anyone to the inquiry panel whose interest or association could be regarded as affecting the impartiality of the panel.
10	This section sets out whom the NAW is required to consult

Section, Subsection	Provision
	before appointing a judge as a panel member.
11(1)–(4)	Gives NAW the power before the inquiry has been set up to appoint assessors to assist the inquiry panel, after consultation with the inquiry chairman. This power vests in the chairman after set up of the inquiry.
11(5)	Requires consent of NAW to any decision by the chairman to terminate the appointment of an assessor appointed by the Assembly.
12(3) & (5)	Provides power for the NAW to terminate appointment of any member of the inquiry panel on the grounds that the member (a) is unable to carry out the duties required (b) has failed to comply with the requirements of the Act (c) their interest or association could be regarded as affecting the impartiality of the panel (unless NAW was aware beforehand) or (d) has been guilty of misconduct which makes the member's appointment unsuitable.
12(4)	If a panel member is temporarily unable to carry out their duties, the NAW may have regard to the likely duration of the inquiry when deciding whether the appointment should be terminated.
12(6) & (7)	The NAW must consult the chairman before exercising powers under section 12 (3) above, must inform the affected member of the proposed decision (and of the reasons for it) and take into account any representations made by the member, and consult other panel members if requested to do so by the affected member.
13(1)–(4)	Sets out the circumstances in which NAW may, by notice, after consulting the chairman, suspend an inquiry to allow other proceedings to be completed.
13(5)	Requires that a copy of any notice suspending an inquiry, to include the reasons for suspension, be laid before the NAW.
14(1)(b)	Provides the NAW with the power to end an inquiry, by notice to the chairman, before delivery of the report of the inquiry.
14(2)	Precludes the ending of the inquiry by NAW at any date prior to the notice being given to the chairman (under section 14(1)(b) above).
14(3)	Requires the NAW to consult the inquiry chairman before using

Section, Subsection	Provision
	the powers conferred in section 14(1)(b) above.
14(4)	Where a notice has been given by NAW under section 14(1)(b) above, it must contain the reasons for ending the inquiry and a copy must be laid before NAW.
15 & 16	Provides the NAW with the power to convert an inquiry established under other legislation to one under this Act and sets out the procedure for doing so. The NAW may, after consulting the chairman, change the terms of reference when converting the inquiry.
19	Provides power for the NAW by way of a “restriction notice” to restrict (a) the attendance at an inquiry (or part of an inquiry) and (b) disclosure or publication of any evidence or inquiry documents, having regard to matters specified in the section. Section 19(4) sets out matters to be considered prior to issuing such notices.
20	Any such notices may be varied or revoked by giving notice to the chairman. Power after the end of the inquiry to revoke, relax or vary restriction orders or notices containing disclosure restrictions that are still in force.
23	Receipt of confidential information from the inquiry panel.
24	Receipt of the report of the inquiry panel (setting out facts determined and recommendations made). Additionally, receipt of any interim report from the chairman.
25(1)–(3)	Establishes a duty for NAW to arrange for the publication of an inquiry report unless the chairman has been notified by NAW to make these arrangements.
25(4)	Where NAW is responsible for publication, it may withhold material from publication in compliance with a legal obligation or if it is necessary in the public interest.
26	Requirement to lay the published inquiry report before the NAW.
27	To be consulted by a UK Minister prior to that Minister giving permission allowing a UK inquiry to determine facts or make recommendations in relation to a Welsh matter.

Section, Subsection	Provision
29	Gives the NAW power to cause an inquiry to be held into a matter that is wholly or primarily concerned with a matter in relation to which the NAW has functions.
31(1)	Imposes a requirement on NAW to specify the relevant part of the UK to which the inquiry relates.
31(2)	Provides an obligation on NAW to specify which set of procedural rules apply in the case of a joint inquiry involving another UK administration.
32	Provides NAW with power to hold a joint inquiry involving another UK administration.
34	Provides NAW with the option of agreeing in writing responsibilities of those parties concerned for the joint inquiry.
36(1)	Provides a power to certify to the appropriate court that a person has failed to comply with, or acts in breach of, a notice under section 19 or 21 or an order made by an inquiry, or threatens to do so.
39	Provides for payment by NAW of inquiry expenses. These are: remuneration and expenses of panel members, assessors, solicitor or counsel to the inquiry or any person engaged to provide assistance; amounts awarded under section 40; and other expenses incurred (e.g. cost of publishing reports). Where NAW believes the panel is acting outside the scope of the Terms of Reference and notifies the chairman accordingly it is not obliged to meet such expenses (subject to anything to the contrary in the Rules).
40(4)	Provides NAW with the power to impose conditions or qualifications on expenses or compensation for lost time awarded to inquiry witnesses etc.
41(1)–(4)	Gives the NAW power to make rules regarding the conduct of inquiries (dealing with matters of evidence and procedure, return and keeping of documents after the end of the inquiry and awards under section 40). These rules must be made by statutory instrument.

